AMGUEDDFA CYMRU

**Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) – Crynodeb o Gyfarfod**

**19 Chwefror 2026 am 09:30 – 11:55**

**Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a Microsoft Teams**

**Ymddiheuriadau:**

***Owen Hathway, Ymddiriedolwr***
***Jane Richardson, Prif Weithredwr***
***Nia Elias, Cyfarwyddwr Cysylltiadau a Chyllido***
***Gareth Lucey, Cyfarwyddwr, Archwilio Cymru***

**Aelodau'r Pwyllgor a oedd yn Bresennol:**

*Jan Williams, Cadeirydd*
*David Jones*
*Dan Richards*
*Emma Yhnell, Arsylwr*

**Aelodau Cyfetholedig a oedd yn Bresennol:**

*Richard Houdmont*
*Spencer John*

**Aelodau'r Tîm Gweithredol a oedd yn Bresennol:**

***Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth***
***Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau***
***Peter Wakelin, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil***
***Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu***

**Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:**

***Normi Cadavieco, Uwch-ymgynghorydd, GGI***
***Helen Cargill, Cyfarwyddwr – Addysg, TIAA***
***Helen Goddard, Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru***
***Max Looker, Pennaeth Llywodraethu***

***Catrin Rowlands, Pennaeth Addysg***
***Yvonne Ruelle, Pennaeth Cyllid***
***Royston Smith, Pennaeth Digidol***
***Chris Pyrah, Swyddog Llywodraethu (Ysgrifenyddiaeth)***
***Ioan Davies, Cyfieithydd***

---

Cyfarfu Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) Amgueddfa Cymru ar 19 Chwefror 2026.

Yn y cyfarfod hwnnw:

- Cafwyd adroddiad gan y Pennaeth Llywodraethu, yn rhoi diweddariad i ARAC ar weithgarwch llywodraethu allweddol yn y sefydliad. Cymerodd ARAC SICRWYDD o'r papur a'r drafodaeth ddilynol
- Cafwyd Polisi Rhoddion a Lletygarwch drafft i'w ystyried. CYTUNODD ARAC i argymell i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr y dylid CYMERADWYO'R Polisi i'w ddefnyddio o fewn Amgueddfa Cymru
- Cafwyd diweddariad gan Archwilio Cymru. Cymerodd ARAC SICRWYDD o'r diweddariad a'r drafodaeth ddilynol
- Cafwyd diweddariad archwilio mewnol gan yr archwilydd mewnol, sef TIAA, ynghyd â phedwar adroddiad. Cymerodd ARAC SICRWYDD o'r diweddariad a'r adroddiadau canlynol a gyflwynwyd yn y cyfarfod:
    - Adroddiad Cynnydd ar Sicrwydd Cryno Ynghylch Rheolaethau Mewnol (SICA)
    - SICRWYDD – Adroddiad Casgliadau
    - SICRWYDD – Adroddiad Ymweliadau â Safleoedd
    - SICRWYDD – Adroddiad Addysg a Dysgu
- Cafwyd diweddariad ar y broses Rheolaethau Mewnol a ailgyflwynwyd yn ddiweddar. Cymerodd ARAC SICRWYDD o'r diweddariad a CHOMISIYNODD adolygiad o'r broses, i'w gyflwyno yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2027.
- Cafwyd yr adroddiadau blynyddol canlynol a chymerwyd SICRWYDD ohonynt:
    - Adroddiad Blynyddol Mentrau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru Cyf
    - Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Pensiwn
    - Adroddiad Blynyddol Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe

- Cafwyd diweddariad ar y canllawiau a ryddhawyd yn ddiweddar gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth (GIAA). Cymerodd ARAC SICRWYDD o'r diweddariad a CHOMISIYNODD staff i lunio cynllun datblygu ar gyfer aelodau ARAC.
- Cafwyd adroddiad ar dendrau sengl a gynhaliwyd yn ystod Ch3 2025/2026, a chlywyd bod yr holl dendrau sengl wedi cydymffurfio â pholisïau Amgueddfa Cymru. Cymerodd ARAC SICRWYDD o'r adroddiad.
- Cynhaliwyd yr adolygiad blynyddol o Gylch Gorchwyl ARAC. CYTUNODD ARAC ar ddau newid i'w Gylch Gorchwyl a fyddai'n cael eu cyflwyno yng nghyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ym mis Mawrth 2026 i gael eu CYMERADWYO.
- CYMERADWYODD ARAC gofnodion ei gyfarfod blaenorol
- Adolygwyd cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu cyfarfodydd blaenorol
- Ystyriwyd Rhagolwg y Pwyllgor a chymerwyd SICRWYDD ohono.